| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Y Cyngor llawn |
| **Dyddiad:** | 3 Mawrth 2022 |
| **Pwnc:** | Cyllideb 2022/23 |
| **Aelod Cabinet:** | Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet dros Gyllid |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid |
| **Pwnc:** | Gosod Cyllideb y Cyngor a phennu lefel Treth Cyngor 2022/23 |

---

**CYLLIDEB 2022/23**

Argymhellion y Cabinet i'r Cyngor llawn yw y dylid:

1. **Sefydlu cyllideb o £295,232,820 ar gyfer 2022/23 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £213,210,400 a £82,022,420 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 2.95%.**

2. **Sefydlu rhaglen gyfalaf o £59,074,980 yn 2022/23 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.**

Byddai cynyddu'r Dreth Cyngor 2.95% yn gynnydd wythnosol o 84c, neu £43.76 yn flynyddol, gyda threth 'Band D' o £1,526.99 am 2022/23.

Mae effaith manwl hyn wedi'i osod allan yn y penderfyniad ffurfiol sy'n Atodiad 11.

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2022/23.

1.2 Mae'r Cyngor wedi derbyn cynnydd grant ar gyfer 2022/23 sy'n gynnydd arwyddocaol ar yr hyn y bu i ni ei dderbyn mewn blynyddoedd blaenorol. Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn cynnydd grant o 8.8%, sy'n cyfateb i gynnydd gwerth £18.1m mewn ariannu allanol. Yn ogystal â hynny, mae £311k ychwanegol wedi ei gynnwys i adlewyrchu trosglwyddo cyfrifoldebau i'r setliad (materion oedd wedi'u ariannu'n flaenorol drwy grantiau penodol).

1.3 Er gwaethaf y setliad rhesymol eleni, mae nifer o ffactorau fydd yn creu pwysau gwariant ychwanegol ar ein gwasanaethau yn 2022/23. Felly, yn ogystal â chyfarch graddfa chwyddiant sy'n uwch ar hyn o bryd nag y bu ers sawl blwyddyn, mae cyfle i ymdrin â phwysau gwario ehangach gan gynnwys mynd i'r afael â chostau parhaus sy'n deillio o'r argyfwng Covid-19, a dileu neu ohirio cynlluniau arbedion nad yw'n ymarferol i'w gwireddu yn 2022/23. Byddai cymryd y penderfyniadau hyn yn golygu cynnydd Treth Cyngor o 2.95%.

1.4 Mae'r gyllideb ddrafft wedi bod yn destun ymgynghori gyda mwyafrif aelodau'r Cyngor mewn cyfres o weithdai yn Ionawr, a wedi ei graffu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 10 Chwefror. Swyddogaeth y Cabinet yw argymell cyllideb cytbwys a phriodol i gyfarfod y Cyngor ar 3 Mawrth ar gyfer 2022/23.

1.5 Erbyn 2022/23, byddai angen cynyddu ein gwariant o £20.2m er mwyn "sefyll yn llonydd" (mae manylion yn rhan 3 isod). Mae hyn yn cynnwys £6.7m i gwrdd â phwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau (mae manylion o'r 'bidiau' unigol yn Atodiad 2).

1.6 Yn ogystal â £6.7m i ymdrin â'r pwysau ar gyllidebau, argymhellir cynnwys £1.4m i ddarparu cyllideb gorfforaethol i ddygymod â chostau a colled incwm o barhad yr argyfwng Covid-19, gan na fydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyllido hyn yn 2022/23 wrth i'w Cronfa Galedi ddirwyn i ben ar 31 Mawrth 2022. O ystyried bydd y Cyngor wedi hawlio oddeutu £14.4m o'r Gronfa Galedi yn 2021/22, nid ydym yn rhagweld bydd yr £1.4m yn ddigonol ynddo'i hun i ymdrin â'r pwysau; sefydlwyd Cronfa Adfer Covid wrth gau cyfrifon 2019/20 i'r perwyl hyn, a hefyd gellir gwneud defnydd o'r Gronfa Strategaeth Ariannol pe byddai angen.

1.7 Mabwysiadwyd Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (am 2022/23 – 2024/25) gan y Cabinet ar 28 Medi 2021. Nodwyd yn yr adroddiad fod cynllunio ariannol yn hynod heriol yn 2021, gydag ystod o senarios posib yn awgrymu bwlch cyllido ar gyfer 2022/23 a allai fod unrhyw swm rhwng £0 a £7.5m, gyda'r ystod o ganlyniadau posibl yn cynyddu'n eang erbyn 2023/24 a thu hwnt. Ar sail yr wybodaeth oedd i law ar y pryd, yr "achos gorau" a ragwelwyd bryd hynny oedd cynnydd yn y Grant Llywodraeth o 4.5%. Gan fod y setliad yn rhagori hyd yn oed yr "achos gorau" hwn mae'n bosib i'r Cyngor allu ymdrin â'r pwysau ar wasanaethau tra ar yr un pryd ddiddymu neu oedi y mwyafrif o gynlluniau arbedion oedd wedi eu rhaglennu ar gyfer y flwyddyn.

1.8 Felly, disgwylir gwireddu £595k yn 2022/23 o'r rhaglen arbedion cynlluniwyd eisoes (mae manylion yn rhan 4 isod a'r cynlluniau unigol wedi'u rhestru yn Atodiad 3) fydd y mynd beth o'r ffordd i gyfarch y bwlch ariannol sy'n ganlyniad i'r pwysau ychwanegol.

1.9 Bu adolygiad trylwyr o'r Strategaeth Asedau yn 2019, ac fe'i adolygwyd yn 2020, ac eleni rydym yn cynnig sefydlu rhaglen gyfalaf gwerth £59.1m yn 2022/23, fel sydd wedi'i osod allan yn Atodiad 4.

1.10 Mae cyllideb 2022/23 yn ceisio gwarchod y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl Gwynedd, ac yn argymell cynnydd 2.95% yn y Dreth Cyngor er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw eleni.

1.11 Mater i'r Cyngor llawn yw ystyried y gyllideb a gosod y Dreth Cyngor erbyn 2022/23 ar sail y materion a nodir yn yr adroddiad dilynol. Mae'r adroddiad manwl yma'n nodi'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2022/23, ac yn amlinellu'r prif newidiadau ers 2021/22.

## 2. GRANT LLYWODRAETH CYMRU

2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r setliad dangosol i ariannu awdurdodau lleol ar gyfer 2022/23. Nodir manylion fel y'i cyhoeddwyd yn swyddogol 'debyg-wrth-debyg' gan Lywodraeth Cymru yn y tabl isod, ynghyd â'r gwir ffigyrau "cash":

| **Grant Cynnal Refeniw 2021/22 – 2022/23** | | **Cyfanswm Awdurdodau Cymru £** | **Cyngor Gwynedd swyddogol £** | **Cyngor Gwynedd "cash" £** |
|---|---|---|---|---|
| Grant y Llywodraeth 2021/22 | | 4,670,079,770 | 195,904,720 | 194,793,140 |
| Grant y Llywodraeth 2022/23 | | 5,107,507,200 | 213,210,340 | 213,210,340 |
| | Cynnydd £ | 437,427,430 | 17,305,620 | 18,417,260 |
| | Cynnydd % | +9.4% | +8.8% | - |

Ni fydd y Llywodraeth yn cyhoeddi ei setliad terfynol tan 2 Mawrth 2022. Mae manylion pellach am y setliad dros dro ar gael yma –

Setliad refeniw a chyfalaf Llywodraeth Leol 2022 i 2023 | LLYW.CYMRU

2.2 Mae ffigyrau swyddogol Llywodraeth Cymru yn y tabl uchod yn dangos yn dybiannol fod Cyngor Gwynedd yn derbyn cynnydd grant o £17.3m erbyn y flwyddyn nesaf (ar ôl addasu'r ffigwr cymharol 2021/22 i adlewyrchu'r trosglwyddiadau i mewn i'r setliad), sy'n gynnydd o 8.8%, tra bod y cyfartaledd ledled Cymru yn 9.4%.

2.3 Mae nifer o ffactorau yn bwydo'r fformiwla dyrannu grant llywodraeth leol, megis poblogaeth y sir, nifer disgyblion yn ein ysgolion, a nifer hawlwyr cymorth incwm. Eleni, bu dipyn mwy o gynnydd yn y niferoedd hyn mewn awdurdodau eraill.

2.4 Derbyniwyd cynnydd sylweddol mewn "cash" oherwydd addasiad sylfaen trethiannol sy'n ail-ddosbarthu grant rhwng awdurdodau lleol Cymru. Roedd hyn oherwydd gostyngiad cymharol mewn eiddo treth cyngor yng Ngwynedd (gwneud i fyny am effaith mudo 'tai gwyliau' i'r rhestr treth busnes), o'i gymharu â chynnydd cyffredinol arferol mewn eiddo treth cyngor ar draws awdurdodau lleol eraill Cymru.

2.5 Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r setliad grant terfynol ar gyfer awdurdodau lleol ar 2 Mawrth, ynghyd â chyllideb terfynol Llywodraeth Cymru eu hunain, a bydd dadl perthnasol yn y Senedd ar 9 Mawrth. Wedi trafod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, ni ddisgwylir newid arwyddocaol o'r ffigyrau grant 'dangosol' yn y setliad drafft.

2.6 Os bydd y ffigwr grant yn newid i fyny neu i lawr ar adeg cyhoeddi'r Setliad Terfynol, mor hwyr yng nghylch gosod y gyllideb a treth 2022/23, byddai'n rhy hwyr i newid ffigyrau'r Dreth Cyngor. Felly, byddwn naill ai'n defnyddio balansau cyffredinol y Cyngor i gysoni gostyngiad mewn cyllid grant, neu'n cyfrannu at falansau cyffredinol i gysoni cynnydd mewn cyllid grant.

## 3. GWARIANT REFENIW'R CYNGOR - 2022/23

3.1 Nodir yn y tabl isod y cynnydd mewn gwariant fydd angen er mwyn "sefyll yn llonydd" yn 2022/23.

**Gofynion Gwario Ychwanegol**

| | £ | £ |
|---|---|---|
| Cyllideb Sylfaenol | | 275,669,610 |
| Chwyddiant Cyflogau Staff | 8,475,440 | |
| Chwyddiant Arall (cyflenwyr) | 3,979,720 | |
| Ardollau (Tân, CNC a CBC) | 493,200 | |
| Demograffi | (26,700) | |
| Bidiau - Pwysau ar Wasanaethau | 6,732,590 | |
| Addasiadau Cyllideb Amrywiol | (788,400) | |
| Cost Benthyca / Llog ar Falansau | (107,640) | |
| Covid-19 | 1,400,000 | |
| Cyfanswm net yr ychwanegiadau | | 20,158,210 |
| Cyfanswm gofynion gwario 2022/23 cyn arbedion | | 295,827,820 |

3.2 **Cyllideb Sylfaenol 2021/22**
Er mai £276m yw gwariant net 2021/22, mae'n bwysig nodi fod gwir wariant y Cyngor yn £470m, oherwydd ein bod yn derbyn llu o grantiau penodol gwerth £134m ac yn codi incwm cyffredinol o £60m am wasanaethau yr ydym yn eu darparu.

3.3 **Chwyddiant Cyflogau £8.5m**

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad yma, nid oedd cytundeb cyflogau y gweithlu (ar wahân i athrawon) ar gyfer Ebrill 2021 i Mawrth 2022 wedi cael ei gytuno, ond ar sail yr wybodaeth ddiweddaraf sydd i law rydym yn rhagdybio cynnydd o 1.75%. Darperir yma ar gyfer cynnydd tâl 1.75% i athrawon ysgolion Gwynedd am y cyfnod Ebrill – Awst 2022 (effaith blwyddyn llawn cytundeb tâl Medi 2021).

Mae'r gyllideb wedyn yn neilltuo amcan gynnydd yng nghytundeb tâl 2022/23 o 4% ar gyfer yr holl weithlu (athrawon o Medi 2022, gweddill y gweithlu o Ebrill 2022).

Nodir hefyd bydd cynnydd o 1.25% mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn dod yn weithredol yn Ebrill 2022.

Hefyd wedi'i gynnwys yma, mae cost incrementau net o drosiant sydd eleni yn golygu dyrannu £171,000 ychwanegol i ysgolion cynradd, ond £9,100 yn llai i ysgolion uwchradd, gan roi cynnydd net o £161,900.

3.4 **Chwyddiant Arall £4m**

Swm 'net' sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer effaith y 'cyflog byw' (isafswm tâl) ar gostau a ffioedd sy'n daladwy i'n cyflenwyr preifat (yn cynnwys £636k ar gyfer cartrefi gofal preswyl annibynnol, a £806k ar gyfer cwmnïau gofal di-breswyl), ynghyd â chynnydd chwyddiant ar gyllidebau tanwydd ac ynni (£467k) a chynnydd prisiau yn dilyn ail-dendro (megis yswiriant £234k).

3.5 **Ardollau £493k**

Bydd y lefiau a delir i'r cyrff perthnasol yn cynyddu fel a ganlyn rhwng 2021/22 a 2022/23:

- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru £421k
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri £0
- Cyfoeth Naturiol Cymru (Ardollau Arbennig) £10k
- Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) y Gogledd £62k

Tynnir sylw aelodau yn benodol fod Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn gorff newydd sydd wedi gosod ei gyllideb cyntaf ar gyfer 2022/23.

3.6 **Demograffi (£27k)**

Cyfanswm net sy'n adlewyrchu -£57k oherwydd lleihad net mewn nifer disgyblion yn yr ysgolion a +£30k oherwydd cynnydd mewn plant sy'n derbyn gofal gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd.

Mae'r ffigwr net o -£57k i ysgolion yn cuddio sefyllfa wahanol mewn gwahanol sectorau, sef uwchradd +£372k a cynradd -£429k.

3.7 **Pwysau ar Wasanaethau £6.7m**

Mae Atodiad 2 yn cynnwys manylion pob cais unigol am wariant ychwanegol sy'n deillio o bwysau ar y gwasanaethau.

Argymhellir cymeradwyo ceisiadau ("bidiau") gwerth £6.7m am adnoddau parhaol ychwanegol a gyflwynwyd gan adrannau'r Cyngor i gwrdd â phwysau anorfod ar eu gwasanaethau.

Hefyd, argymhellir cymeradwyo bidiau 'un-tro' gwerth £6.2m sydd i'w ariannu o'r Gronfa Trawsnewid.

Gofynnir i bob adran i adnabod unrhyw wariant rhaid i'r Cyngor gyflawni er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth sylfaenol. Nid yw'r drefn yma ar gyfer datblygiadau newydd dymunol, ond yn hytrach ar gyfer parhad gwasanaethau sylfaenol presennol.

Mae elfen o'r ceisiadau yma wrth gwrs yn amlygu ei hun wrth i ni adolygu patrymau gwariant y flwyddyn gyfredol. Mae eraill yn ganlyniad i faterion sy'n codi lle mae angen gwario er mwyn gwarchod deilliannau i'r cyhoedd, neu i gwrdd â gofynion statudol. Mae yna elfen hefyd o lywodraeth ganolog yn creu pwysau a disgwyliadau, ac wedyn y Cyngor gorfod dygymod gyda'r sgil effeithiau.

Mae'r eitemau cyflwynir yma yn Atodiad 2 wedi cael eu herio'n drylwyr gan y Tîm Arweinyddiaeth a'r Cabinet cyn eu hargymell i'w cymeradwyo gan y Cyngor llawn. Ymhellach, cyflwynwyd yr holl geisiadau gwariant hyn yn y Seminarau Cyllideb a gynhaliwyd ar 24, 25 a 26 Ionawr 2022, lle roedd y mwyafrif o aelodau'r Cyngor yn cydsynio fod y gwariant yn anorfod.

3.8 **Addasiadau Cyllideb Amrywiol (£788k)**

Cyfanswm sy'n adlewyrchu nifer sylweddol o addasiadau i wahanol gyllidebau ar draws y Cyngor.

3.9 **Costau Benthyca a Llog ar Falansau (£108k)**

Rhagamcan o ostyngiad (£38k) mewn llog taladwy ar fenthyciadau yn 2022/23, wrth i hen fenthyciadau hir-dymor ddirwyn i ben, ynghyd â chynnydd (£70k) mewn dychweliadau wrth fuddsoddi balansau a llif arian y Cyngor.

3.10 **Covid-19 £1.4m**

Ers Ebrill 2020 mae Llywodraeth Cymru wedi digolledu awdurdodau lleol am gostau ychwanegol a cholled incwm fel sy'n ganlyniad i'r pandemig allan o'u Cronfa Caledi. Roedd cyfanswm y cymorth gan y Llywodraeth oddeutu £20m yn 2020/21, ac amcangyfrif bydd y cymorth oddeutu £14.4m yn ystod 2021/22.

Fodd bynnag, mae'r Gweinidog Cyllid yn Llywodraeth Cymru wedi datgan yn ddiamwys bydd y cymorth hwn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2022 a bydd disgwyl i awdurdodau lleol ariannu unrhyw gostau ychwanegol / colled incwm yn sgil Covid-19 wedi hynny.

Felly, mae'r pwysau ariannol yn y gyllideb yn cynnwys £1.4m pellach sydd wedi ei ddarparu er mwyn sefydlu cronfa gorfforaethol, i ddygymod â'r sefyllfa. Nid ydym yn rhagweld bydd yr £1.4m yn ddigonol ynddo'i hun i ymdrin â'r pwysau ond mae cronfeydd eraill ar gael i gynorthwyo. Sefydlwyd Cronfa Adfer Covid wrth gau cyfrifon 2020/21 i'r perwyl hyn, a hefyd gellir gwneud defnydd o'r Gronfa Strategaeth Ariannol pe byddai angen.

## 4. ARBEDION

**4.1 Mae Cyngor Gwynedd wedi gwireddu dros £32.8m o gynlluniau arbedion ers 2015/16**, ond eto eleni, mae argyfwng Covid-19 wedi cael effaith ar allu'r adrannau i wireddu nifer o'u cynlluniau.

4.2 Ar 18 Ionawr 2022, wrth ystyried adroddiad cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion, penderfynodd y Cabinet fel a ganlyn o ran cynlluniau arbedion 2022/23:

- cydnabod fod y sefyllfa bellach wedi newid cymaint fel na ellir cyflawni cynlluniau arbedion gwerth £489,750 gan eu dileu o'r gyllideb, sef
  - Adolygiad Dechrau i'r Diwedd (Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd) gwerth £279,750
  - Trosglwyddo meysydd chwarae i eraill (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) gwerth £210,000
- symud y proffil cyflawni ar gyfer cynlluniau gwerth £1,290,250 i 2023/24 a blynyddoedd dilynol.

| Arbedion | Gohirio i 2023/24 neu hwyrach £ | Dileu £ |
|---|---|---|
| Cynlluniau 2022/23 | 1,290,250 | 489,750 |

4.3 Felly, bydd gwerth £1,780,000 o arbedion a gynlluniwyd yn wreiddiol i'w gwireddu yn 2022/23 bellach ddim yn cyfrannu at gau bwlch cyllidebol 2022/23. Canlyniad hyn yw mai £595,000 yw gwerth yr arbedion sy'n weddill yn y rhaglen i'w tynnu allan o gyllideb 2022/23, yn hytrach na £2,375,000. Mae mwy o fanylion yn Atodiad 3, ac yn yr adroddiad Cabinet 18 Ionawr.

4.4 Wedi'r addasiadau uchod i'r rhaglen arbedion, mae'r holl gynlluniau unigol sydd i'w gweithredu gan yr adrannau yn 2022/23 wedi'u rhestru yn Atodiad 3 er gwybodaeth, ac mae'r cyfansymiau adrannol wedi'u crynhoi yn y tabl canlynol.

| **Arbedion i ddygymod gyda Bwlch Ariannu 2022/23** | |
|---|---|
| | £ |
| Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | 100,000 |
| Adran Cefnogaeth Gorfforaethol | 100,000 |
| Adran Economi a Chymuned | 70,000 |
| Adran Cyllid (a T.G.) | 25,000 |
| Adran Amgylchedd | 12,500 |
| Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 287,500 |
| **Arbedion ar gael i leihau bwlch Cyllideb 2022/23** | **595,000** |

## 5. BWLCH ARIANNU 2022/23 A'R DRETH CYNGOR

5.1 Fe welir o ran 3 uchod fod anghenion gwario'r Cyngor (cyn tynnu arbedion) ar gyfer 2022/23 yn £295.8m. Nodwyd yn rhan 2 fod y grant oddi wrth Lywodraeth Cymru am fod yn £213.2m.

5.2 Fel eglurwyd yn rhan 4 uchod, mae cyfanswm o £595,000 o arbedion i'w ddefnyddio i leihau'r bwlch ariannu.

| **Sefydlu Cyllideb 2022/23** | |
|---|---|
| | £ |
| Cyllideb Sylfaenol 2021/22 | 275,669,610 |
| Gofynion Gwario Ychwanegol | 20,158,210 |
| Gofynion Gwario 2022/23 cyn Arbedion | 295,827,820 |
| llai Incwm Grant Refeniw Llywodraeth Cymru | (213,210,400) |
| llai Cyfanswm yr Arbedion i gau'r Bwlch | (595,000) |
| Bwlch gweddilliol o'r Dreth Cyngor | 82,022,420 |

5.3 Golyga hynny fod bwlch gweddilliol o £82m, ac argymhellir cyfarch y bwlch hwnnw drwy'r Dreth Cyngor. Bydd angen codi'r Dreth 2.95% er mwyn cynhyrchu incwm digonol.

5.4 Mae gwybodaeth gefndirol a'r cyd-destun ar gyfer gosod lefel y Dreth (ynghyd â manylion y Premiwm ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor) wedi'i gyflwyno yn Atodiad 6.

5.5 Felly, argymhellir codi'r dreth 2.95%, fydd yn cynhyrchu £82m o dreth erbyn 2022/23, sydd yn £1.2m o incwm ychwanegol tuag at y bwlch o'i gymharu â chyllideb 2021/22. Byddai hynny'n gyfystyr i gynnydd yn y Dreth Cyngor o £43.76 i eiddo mewn Band D, neu £0.84 yr wythnos. Bydd y dreth a godir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (cynnydd o 3.68% ar gyfer 2022/23) a'r cynghorau cymuned (% amrywiol) yn ychwanegol i hyn wrth gwrs.

5.6 Yn 2021/22 roedd lefel Band D Gwynedd yn £1,483, tra roedd lefel treth cyfartalog siroedd Cymru yn £1,402. Fodd bynnag, mae hynny am resymau hanesyddol, gan fod y cynnydd a welwyd yn Nhreth Cyngor Gwynedd ers 2015/16 yn 4.2% ar gyfartaledd, sy'n llai na'r cynnydd 4.3% a welwyd ar gyfartaledd ar draws Cymru yn ystod yr un cyfnod.

5.7 Pe bai aelodau'r Cyngor awydd cynnydd llai na 2.95% yn lefel y Dreth, yna byddai rhaid ymrwymo llai o adnoddau parhaol i ymdrin â'r pwysau ar wasanaethau.

5.8 Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a lefel rhesymol o drethiant o hyd yn un anodd. Ar gyfer 2022/23 disgwylir bydd y cynnig gerbron i godi'r dreth 2.95% er mwyn diwallu'r pwysau ar wasanaethau tra'n gosod cyllideb gytbwys yn lefel tebyg i fwyafrif yr awdurdodau yn y gogledd.

## 6. CASGLIADAU / CYLLIDEB 2022/23

6.1 Mae'r adroddiad yma a'r atodiadau yn gosod allan y ffactorau y dylid eu hystyried wrth sefydlu cyllideb 2022/23 ac er gwaethaf cynnydd grant sydd yn uwch na chwyddiant eleni, bydd rhaid parhau i gynaeafu rhai arbedion hanesyddol – er fod modd oedi neu dileu'r mwyafrif – a chodi lefel y dreth er mwyn gosod cyllideb gytbwys.

6.2 Argymhellir cyfarch angen gwario refeniw o £295.2m, wedi ychwanegu £20.2m, sy'n cynnwys darparu £6.7m er mwyn cyfarch y galw am wasanaethau.

6.3 Ar ôl derbyn grant gan Lywodraeth Cymru o £213.2m a dibynnu ar £595k o arbedion, bydd angen i lefel y Dreth Cyngor gynyddu 2.95% i gynhyrchu £82m o incwm er mwyn cau bwlch ariannu 2022/23.

| **Cyllideb gytbwys ar gyfer 2022/23** | |
|---|---|
| | £ |
| Gofynion Gwario 2022/23 cyn Arbedion | 295,827,820 |
| Cyfanswm Arbedion 2022/23 | (595,000) |
| Cyllideb 2022/23 | 295,232,820 |
| | |
| **I'w ariannu drwy -** | |
| Incwm Grant | 213,210,400 |
| Treth Cyngor (cynnyrch ar ôl codi 2.95%) | 82,022,420 |
| Cyllideb 2022/23 | 295,232,820 |

6.4 Bydd hyn yn golygu gosod cyllideb net o £295,232,820. Rhoddir ddadansoddiad o'r gyllideb fesul gwasanaeth yn Atodiad 1.

## 7. CYFALAF

7.1 Sefydlwyd strategaeth asedau 2019/20 – 2028/29 gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2019. Mae'r strategaeth asedau newydd yn weithredol am y cyfnod 2019/20 hyd at 2028/29. Fe'i ymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf, ac rydym yn ychwanegu at hwnnw erbyn 2022/23. Ceir manylion y rhaglen gyfalaf bresennol yn Atodiad 4.

7.2 Mae'r ddau dabl a welir yn Atodiad 4 yn adlewyrchu'r gofynion cyfalaf, ynghyd â'r ariannu, ar gyfer gosod cyllideb cyfalaf 2022/23 i 2024/25, er mwyn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £59,074,980 yn 2022/23, i'w ariannu o'r ffynonellau sydd wedi'u dadansoddi yn Atodiad 4.

7.3 Yn y tabl yn Atodiad 4 nodir bod £500k ar gael yn flynyddol ar gyfer cyllido bidiau cyfalaf. Ar gyfer 2022/23, mae'r gyllideb yma wedi ei glustnodi ar gyfer y 7 bid cyfalaf perthnasol a fanylir yn Atodiad 2ch.

## 8. STRATEGAETH TYMOR HIRACH

8.1 Mabwysiadwyd Strategaeth Cyllideb 2022/23 gan y Cabinet ar 28 Medi 2021. Bwriad y Strategaeth yma oedd rhoi amlinelliad o drefn flynyddol llunio cyllideb am y flwyddyn 2022/23, ynghyd â Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer y Cyngor Penderfyniad y Cabinet oedd**:**

i. Cymeradwywyd y drefn ac amserlen ar gyfer llunio Cyllideb 2022/23.
ii. Nodwyd os bydd bwlch cyllido i fantoli cyllideb 2022/23, bydd y Cyngor yn defnyddio cyllidebau a cronfeydd wrth gefn i liniaru colledion adnoddau yn y tymor byr, a pwyllo cyn adnabod unrhyw arbedion ychwanegol fydd angen yn ystod haf 2022.
iii. Derbyniwyd cynnwys yr adroddiad fel Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor, tra'n nodi, yn y cyd-destun cyfredol, fod cynllunio ariannol yn hynod heriol.

8.2 Wrth gyhoeddi setliad drafft 2022/23 yn Rhagfyr 2021, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bydd Awdurdodau Lleol Cymru ar y cyfan yn derbyn +3.5% yn 2023/24 ac yna +2.4% yn 2024/25. Wrth gwrs, gall Gwynedd dderbyn llai na chyfartaledd Cymru. Er enghraifft, derbyniwyd +8.8% eleni o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o +9.4%.

8.3 Golyga hyn bydd y cynnydd yng ngrant y Llywodraeth ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol yn sylweddol llai na'r hyn byddwn yn ei dderbyn yn 2022/23. O ystyried cyfraddau chwyddiant, wrth gynllunio ar gyfer y blynyddoedd hyn bydd gosod cyllideb gytbwys yn golygu ail-ymweld â'r cynlluniau arbedion sydd wedi llithro i'r blynyddoedd hynny.

## 9. YSTYRIAETHAU ERAILL AC AMRYWIOL ASESIADAU

9.1 Mae'r lefel gyfredol o falansau cyffredinol y Cyngor yn £7m, ac ar ôl cyfarch effaith Covid-19 ar gyfrifon diwedd blwyddyn 2021/22, ystyrir bydd lefel y balansau hyn yn briodol i'w gadw ar gyfer llif arian ymarferol a gwariant annisgwyl. Cyflwynir gwybodaeth am y balansau a chronfeydd wrth gefn yn Atodiad 7.

9.2 Mae'r gyllideb yma'n argymell defnyddio £6,172,960 o'r Gronfa Trawsffurfio er mwyn ariannu'r bidiau refeniw un-tro sydd wedi eu nodi yn Atodiad 2.

9.3 Mae Atodiad 5, 'Ymdrin â'r Gyllideb Ysgolion yn 2022/23', yn egluro sefyllfa cyllideb ysgolion Gwynedd.

9.4 Wrth benderfynu ar gyllideb, rhaid i'r Cabinet a'r Cyngor ystyried effaith eu penderfyniadau o safbwynt cydraddoldeb yn unol â'r dyletswyddau statudol sydd ar y Cyngor drwy **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**. Bydd hyn yn ysgafnach eleni, gan nad ydym yn cyflwyno unrhyw gynlluniau arbedion newydd ychwanegol. Mae Atodiad 8 yn ymdrin yn benodol â'r ddyletswydd, gan gynnwys sylwadau'r swyddog cyllid statudol ar y Gyllideb cyfan o safbwynt cydraddoldeb. Mae'r asesiad yn cadarnhau fod y bydd effaith cyffredinol bositif o barhad y gwasanaethau ystyriwyd yn flaenoriaeth i'w hamddiffyn a'u ariannu i'r lefel galw ychwanegol ac ni chredir y bydd unrhyw effeithiau negyddol yn sylweddol, gan nad oes cynlluniau arbed newydd yn cael eu hargymell.

9.5 Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn seiliedig ac wedi eu datblygu yn unol â'r ddyletswydd statudol sydd ar y Cyngor dan Adran 3 i ymgymryd â datblygiad cynaliadwy yn ei holl weithgareddau. Yn unol â'r drefn arferol, rhoddir gwybodaeth fanylach am y Ddeddf Llesiant a chasgliadau perthnasol yn Atodiad 9.

9.6 Mae rhaid i'r swyddog cyllid statudol fynegi barn am gadernid yr amcangyfrifon. Cyflwynir asesiad o risgiau a chadarnhad priodol yn Atodiad 10.

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn fater lleol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Swyddog Monitro:**
Mae'r argymhelliad gan y Cabinet ar gyfer y gyllideb yn anorfod yn ganlyniad proses fanwl sydd yn dwyn at eu gilydd ystyriaethau statudol, cyllidol a blaenoriaethu. Yn unol â threfniadau llywodraethu'r Cyngor mae hyn yn cynnwys trosolwg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Dylai'r Cyngor ddal sylw at y cyfan o'r asesiadau ac ymgynghoriadau a gyfeirir atynt a'r canfyddiadau sydd yn deillio wrth ystyried cymeradwyo'r argymhelliad. Bydd mabwysiadu'r Gyllideb yn sefydlu fframwaith gyllidol fydd yn caniatáu y Cabinet i symud ymlaen â blaenoriaethau'r Cyngor.

**Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma yn unol â phenderfyniad Cabinet 15 Chwefror ac yn cadarnhau'r cynnwys. Wedi ystyried yr holl risgiau amlinellir yn Atodiad 10 i'r adroddiad, a'r camau lliniaru, rwyf o'r farn fod Cyllideb y Cyngor am 2022/23 yn gadarn, yn ddigonol, ac yn gyraeddadwy.

**ATODIADAU**

| | |
|---|---|
| 1 | Cyllidebau Arfaethedig |
| 2 | Crynodeb Bidiau |
| 2a | Bidiau Refeniw Parhaol |
| 2b | Bidiau Refeniw Un-tro |
| 2c | Bidiau Cyfalaf |
| 3 | Arbedion |
| 4 | Cyfalaf |
| 5 | Ymdrin â’r Gyllideb Ysgolion yn 2022/23 |
| 6 | Treth Cyngor |
| 7 | Balansau |
| 8 | Asesu’r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol |
| 9 | Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| 10 | Cadernid yr Amcangyfrifon |
| 11 | Penderfyniad Ffurfiol |